Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus
DYDDIAD:	27 Gorffennaf 2022
LLEOLIAD:	Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron / o bell drwy gynhadledd fideo
TEITL:	Cynnydd o ran cyflawni'r Strategaeth Economaidd

Ym mis Mawrth 2021, ar ôl gwaith ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys nifer o sesiynau gydag is-grŵp o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus, a chyda'r pwyllgor ei hun, mabwysiadodd Cabinet Cyngor Sir Ceredigion Strategaeth Economaidd ar gyfer Ceredigion yn ffurfiol.

Mae'r ddogfen hon yn Strategaeth Economaidd Fframwaith ar gyfer Ceredigion i lywio dull gweithredu a chamau gweithredu Cyngor Sir Ceredigion i sicrhau twf economaidd hyd at 2035.

Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar y meysydd dylanwad lle gall Cyngor Sir Ceredigion wneud gwahaniaeth i'r economi – h.y. sut mae'n defnyddio ei asedau cyfalaf, asedau dynol ac asedau refeniw i gael effaith gadarnhaol ar yr economi yng Ngheredigion dros y cyfnod hwnnw.

Mae'n canolbwyntio ar bedwar prif faes blaenoriaeth – Pobl, Menter, Lle a Chysylltedd, gyda phob adran yn amlinellu rhai o'r ymyriadau cynnar a ystyriwyd, sut y caiff effaith ei mesur ynghyd â phwy sydd angen cymryd rhan ac amserlen awgrymedig ar gyfer gweithredu.

Mae'r strategaeth yn cynrychioli fframwaith gweithredu, yn hytrach na rhestr gynhwysfawr o gamau gweithredu sy'n cwmpasu'r cyfnod hyd at 2035.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r camau sydd wedi'u cymryd ers ei lansio ym mis Mawrth 2021.

Rhoi camau gweithredu o fewn y Strategaeth ar waith

Mae llawer o gynlluniau eisoes wedi'u datblygu a'u rhoi ar waith o dan y cyfeiriad strategol a bennwyd gan y Strategaeth Economaidd. Sicrhawyd swm sylweddol o gyllid allanol gan amrywiaeth o sefydliadau rhanddeiliaid allweddol, a fydd yn galluogi'r sylfeini ar gyfer twf economaidd pellach i gael eu rhoi ar waith.

Mae rhai uchafbwyntiau byr wedi'u cynnwys isod:

Blaenoriaeth 1: Pobl

- Sicrhawyd gwerth £2.8m o fuddsoddiad drwy Gronfa Adnewyddu Cymunedol Llywodraeth y DU, ac mae'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd drwy 12 prosiect sy'n cynnwys rhanddeiliaid sy'n cefnogi unigolion a busnesau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â

chamau gweithredu a nodwyd yn y Strategaeth Economaidd.

- Mae un prosiect, dan arweiniad Antur Cymru, yn mynd i'r afael â niferoedd cynyddol o bobl sy'n ystyried entrepreneuriaeth yn seiliedig ar reidrwydd sy'n wynebu rhwystrau i ymgysylltu â gwasanaethau sefydledig sy'n rhoi cymorth i fusnesau, megis Busnes Cymru. Mae'r prosiect yn galluogi unigolion i feithrin sgiliau trosglwyddadwy drwy gymryd rhan mewn prosiect sy'n darparu sgiliau busnes sylfaenol. Wedi'u cynnwys yn y prosiect mae dwy ganolfan dechrau busnes yn Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan lle gall entrepreneuriaid newydd brofi masnach a sefydlu safleoedd ar gyfer eu nwyddau a'u gwasanaethau.

Blaenoriaeth 2: Lle:
Mae'r camau gweithredu wedi canolbwyntio ar barhau i ddatblygu'r cynlluniau lle, a'u gweithredu drwy gael gafael ar gyllid o wahanol ffynonellau i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd.
Hyd yma, mae'r buddsoddiadau a sicrhawyd yn cynnwys y canlynol:

- £10.8m o gyllid y Gronfa Ffyniant Bro gan Lywodraeth y DU ar gyfer tri phrosiect i gefnogi'r gwaith o adfywio a datblygu'r ardal o'r Harbwr i'r Hen Goleg yn Aberystwyth.
- £379k o gyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi amrywiaeth o brosiectau i ailddefnyddio asedau canol trefi at ddibenion economaidd ac i wella seilwaith gwyrdd yng nghanol trefi, Mae'r buddsoddiad yn cynnwys prynu 10/11 Sgwâr Harford yn Llanbedr Pont Steffan, a datblygu prosiect Seilwaith Gwyrdd yn Stryd y Farchnad, Llanbedr Pont Steffan. Caiff buddsoddiadau eu trafod a'u llywio gan y Panel Datblygu Asedau a'r Grŵp Datblygu, ac maent yn cyd-fynd â'r Rhaglen Datblygu Asedau y cytunwyd arni drwy'r strwythur uchod ac sy'n cael ei diwygio'n flynyddol.
- Mae nifer o brosiectau Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru a phrosiectau strategol wedi'u sicrhau ar gyfer amrywiaeth o bartneriaid yng Ngheredigion. Cwblhawyd Canolfan Creuddyn, prosiect Cymdeithas Tai Barcud yn Llanbedr Pont Steffan yn ystod haf 2021. Sicrhawyd cyllid hefyd ar gyfer prosiect i adnewyddu neuadd y farchnad hanesyddol yn Aberteifi, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar y prosiect uchelgeisiol a phwysig hwnnw.
- Sicrhawyd dros £250,000 i wella mynediad i asedau naturiol Ceredigion drwy Grantiau Gwella Mynediad a'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.
- Mae gwaith yn parhau ar ddatblygu prosiectau'n fanwl i sicrhau rhan o gyllid Bargen Twf Canolbarth Cymru a negodwyd gan bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru rhwng Cynghorau Sir Ceredigion a Phowys. Llofnodwyd Cytundeb y Fargen Lawn ar gyfer rhaglen buddsoddi cyfalaf gwerth £110m gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ym mis Ionawr 2022, gan baratoi'r ffordd ar gyfer datblygu a chyflawni prosiectau ledled y rhanbarth. Yng Ngheredigion, cyflwynwyd Achosion Amlinellol Strategol ar gyfer buddsoddiadau yn yr Harbwr yn Aberaeron a Chanolfan Arloesi Gweithgynhyrchu Bwyd yng Nghanolfan Bwyd Cymru, Horeb.
- Gyda chefnogaeth cyllid Leader drwy raglen Cynnal y Cardi, mae swyddog Datblygu Trefi wedi'i gyflogi i ymgysylltu â chynrychiolwyr trefi i helpu i hwyluso a chefnogi syniadau i adfywio trefi gwledig Ceredigion.

Blaenoriaeth 3 – Menter
Mae gwaith wedi dechrau ar nifer o fentrau sydd wedi'u targedu at gefnogi twf busnesau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes yng Ngheredigion.

- Fe wnaeth cynllun Grant Cyfalaf Bach a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a gyflawnwyd yn gynnar yn 2021 arwain at bron i £500,000 o fuddsoddiad grant mewn busnesau yng Ngheredigion, gan ddenu £631,000 pellach o gyllid gan y sector preifat. Arweiniodd y cymorth at greu 146 o swyddi newydd yng Ngheredigion, a diogelwyd 408 o swyddi eraill mewn 81 o fusnesau drwy'r buddsoddiadau. Sicrhawyd pecyn cyllido pellach gwerth £173,000 ar ddechrau 2022, gan arwain at drosoli gwerth £250,000 o arian cyfatebol gan y sector preifat ar draws 10 busnes yng Ngheredigion, gan greu 35 o swyddi newydd a diogelu 86 swydd.

- Roedd y cynllun hwn yn dilyn rhaglen 2 flynedd o fuddsoddiadau gwerth £500,000 fel rhan o raglen Arfor i gefnogi a chryfhau'r cysylltiadau rhwng twf economaidd a'r iaith Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ar fanylion rhaglen Arfor arall gwerth £11m ar draws 4 sir sy'n rhan o ardal Arfor (Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr).

- Mae Cynnal y Cardi yn parhau i gefnogi gweithgarwch adfywio cymunedau gwledig o'r gwaelod i fyny drwy brosiectau peilot, astudiaethau dichonoldeb, hwyluso, gweithgareddau rhwydweithio a hyfforddiant a mentora. Ers dechrau'r cynllun, mae tua 70 o weithgareddau wedi'u cefnogi. Mae enghreifftiau o rai, sydd ar y gweill ar hyn o bryd, yn cynnwys:

    - "Ceredigion360," dichonoldeb i ddarganfod a oes awydd i greu a chynnal gwefannau ardaloedd lleol bywiog, cynaliadwy ar draws ardaloedd o Geredigion;
    - Gwaith dichonoldeb i'r cyfleoedd i ddatblygu "Canolfan Tir Glas" ar gampws Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan;
    - Treialu cynllun oergell gymunedol yn Aberporth;
    - Treialu dysgu dwyieithog, digidol yn yr awyr agored drwy ddatblygu cyrsiau mewn coetiroedd;
    - Cefnogi gyda gweithgareddau ymgysylltu ac archwilio dichonoldeb menter gymunedol Tafarn Gymunedol Dyffryn Aeron.

- Mae rhaglen Helix Canolfan Bwyd Cymru yn parhau i gefnogi busnesau bwyd yng Ngheredigion a thu hwnt gyda gwybodaeth dechnegol i alluogi busnesau newydd i gael eu sefydlu a galluogi busnesau sy'n bodoli eisoes i dyfu.

Blaenoriaeth 4 – Cysylltedd

- **Cysylltedd digidol**

Y sefyllfa bresennol o ran cysylltedd digidol
Cysylltiad ffeibr i'r adeilad (FTTP) – 28.3%

Band eang cyflym iawn (>30Mbps) – 86.3%

Cyn mis Chwefror 2020, pan benodwyd swyddog digidol gan Gyngor Sir Ceredigion, y cyfraddau cysylltedd oedd:
Cysylltiad ffeibr i'r adeilad (FTTP) – 20%
Band eang cyflym iawn (>30Mbps) – 80.6%

Ar ôl cwblhau Rhaglen Cyflymu Cymru disgwylir y bydd 90% o Geredigion yn gallu derbyn +30Mbps

Mae buddsoddiad yn digwydd yn y Sir gyda 4 darparwr rhwydwaith amgen gwahanol yn cynnig prosiectau ffibr ar draws y Sir, gyda thros 20 o ardaloedd prosiect yn cael eu cynnig ar hyn o bryd ac i'w cychwyn yn 2022 a 2023.

Bydd y Rhaglen Ddigidol fel rhan o Fargen Twf Canolbarth Cymru hefyd yn cael effaith ar gyflymu'r broses o gyflwyno ffeibr ar draws y rhanbarth drwy nifer o brosiectau seilwaith.

- **LoRaWAN**

Yn ystod 2021 mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cwblhau prosiect i osod 40 o Byrth LoRaWAN ar nifer o asedau'r Cyngor er mwyn creu rhwydwaith LoRaWAN ledled y Sir. Dyma'r rhwydwaith mwyaf helaeth ar draws unrhyw Awdurdod Lleol arall yng Nghymru a'r Awdurdod Lleol cyntaf â darpariaeth ar draws llawer o'r Sir. Yn ogystal â'r Cyngor yn cael mynediad, bydd y rhwydwaith hefyd ar gael i bob busnes, sefydliad a phreswylydd, gyda'r rhyddid i'r rhwydwaith gael ei ddefnyddio yn y modd y maent yn teimlo sydd fwyaf effeithiol.

Mae cydweithrediadau â chyrff y sector cyhoeddus yn cael eu sefydlu ar hyn o bryd i alluogi mynediad i byrth y gall y sefydliadau hyn eu defnyddio i ddatblygu eu prosiectau eu hunain a defnyddio achosion. Drwy wneud hynny, bydd modd amrywio'r defnydd o'r rhwydwaith y mae'r Cyngor wedi'i roi ar waith a sbarduno arloesedd.

- **Trefi SMART Ceredigion**

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi llwyddo i dderbyn cyllid i ddatblygu prosiect i alluogi 'Trefi SMART' yng Ngheredigion. I ddechrau, bydd y prosiect yn cynnwys gosod pwyntiau mynediad wi-fi yn Aberaeron, Llandysul, Llanbedr Pont Steffan, Ceinewydd a Thregaron, ac mae gan Aberystwyth ac Aberteifi systemau ar waith eisoes.

Yn ogystal â darparu 'wi-fi Tref' ar draws pob un o'r Trefi, bydd yr offer yn darparu'r gallu i gasglu data dienw ar nifer yr ymwelwyr, y defnydd o ofod ac amser aros, a bydd yn galluogi Cynghorau Tref a'r Cyngor Sir i gynnal dadansoddiadau i gynorthwyo trefi a busnesau i nodi pa ddulliau sydd orau i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu busnes. Mae contractwr wedi'i benodi ac mae wrthi'n cynnal trafodaethau gyda Chynghorau Tref ynghylch lleoliadau gosod priodol.

Mae'r Strategaeth Economaidd yn nodi'r uchelgais i ddatblygu a chynnal dull cydweithredol cryf

o ymdrin â thwf economaidd. Mae swyddogion ac aelodau Cyngor Sir Ceredigion wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i helpu i ddatblygu'r **Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru**, sy'n nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cryfderau arbennig Canolbarth Cymru, cefnogi twf economaidd cynaliadwy a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a lleol, gan gyfrannu at nodau llesiant Cymru.

Meysydd ffocws ar gyfer y dyfodol:

Bydd y tîm yng Nghyngor Sir Ceredigion, gan weithio gyda rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, yn parhau i adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd eisoes a grynhoir yn yr adran flaenorol.

O fewn pob un o'r 4 maes ymyrraeth yn y Strategaeth Economaidd, mae heriau sylweddol o hyd i fynd i'r afael â nhw:

i. Pobl: Er bod diweithdra wedi gostwng yn y sir yn dilyn lefel uchel yn ystod pandemig Covid-19, mae'r lefelau'n dal yn uwch nag yr oeddent cyn mis Mawrth 2020, ac mae lefel yr anweithgarwch economaidd yn peri pryder penodol.

ii. Lleoedd: Mae canol ein trefi wedi wynebu amgylchiadau heriol ers mis Mawrth 2020. Er bod swyddi manwerthu yng nghanol trefi yn is nag yr oeddent cyn mis Mawrth 2020, mae llawer o siopau cadwyni cenedlaethol wedi rhoi'r gorau i weithredu, yn enwedig yn Aberystwyth. Bydd y tîm yn canolbwyntio ymdrechion a buddsoddiadau ar gefnogi'r gwaith o ailbwrpasu canol trefi, gan weithio gyda rhanddeiliaid ym mhob un o'r trefi.

iii. Menter: Yn yr un modd â'r rhan fwyaf o Gymru, bu cynnydd yn nifer y mentrau yng Ngheredigion yn 2020, ac er bod y niferoedd wedi gostwng ychydig yn 2021, mae nifer y mentrau gweithredol yn parhau'n uwch nag yn 2019. Fodd bynnag, mae nifer y mentrau sy'n fusnesau canolig (sy'n cyflogi rhwng 50 o bobl) yn parhau'n isel ar 0.61% o gyfanswm y mentrau sy'n cyflogi 7.9% o'r boblogaeth sy'n gweithio a gyflogir ym mentrau Ceredigion (o'i gymharu â 0.83% a 12.7% ar gyfer Cymru). Cyflogir dros 72% o'r boblogaeth sy'n gweithio mewn mentrau micro a bach. Mae hyn yn effeithio ar gynhyrchiant a chyfleoedd datblygu gyrfa.

iv. Cysylltedd: Mae rhai heriau yn parhau o ran sicrhau bod gan fusnesau a thrigolion Ceredigion fynediad at y cyflymderau uchaf a mwyaf dibynadwy o gysylltiad â'r rhyngrwyd.

Mae'r gwasanaeth yn adolygu cyfleoedd yn rheolaidd i ddenu cyllid pellach i allu gweithredu agweddau ar y strategaeth economaidd a'i chydrannau. Un enghraifft gyfredol o'r fath yw'r gwaith cydgysylltiedig sy'n cael ei wneud i sicrhau bod y Gronfa Ffyniant a Rennir mor effeithiol â phosibl er mwyn cyflawni blaenoriaethau Corfforaethol Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer twf economaidd.

DIBEN YR ADRODDIAD :	**Rhannu cynnydd ar y gwaith sy'n cael ei wneud i gyflawni'r Strategaeth Economaidd**
Y RHESWM PAM FOD Y PWYLLGOR CRAFFU	Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau

WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:	Ffyniannus, a chyfrannodd yn llawn at y broses o ddatblygu'r Strategaeth Economaidd cyn ei chyhoeddi yn 2021. Mae hwn yn gyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y cynnydd flwyddyn ar ôl ei chyhoeddi.
A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam	Amherthnasol – cwblhawyd Asesiad Effaith Integredig llawn i gefnogi cyhoeddi'r Strategaeth Economaidd yn 2021
LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:	***Crynodeb:*** **Hirdymor:** **Integreiddio:** **Cydweithio:** **Cynnwys:** **Atal:**

ARGYMHELLIAD: Bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus yn ystyried yr adroddiad ac yn rhoi adborth ar y materion a godwyd ynddo.

Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:

Er mwyn helpu i sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd i gefnogi twf yr economi yng Ngheredigion.

Enw Cyswllt:	Russell Hughes-Pickering, Arwyn Davies
Swydd:	Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Rheolwr Corfforaethol
Dyddiad yr Adroddiad:	6 Gorffennaf 2022

Acronymau:

Atodiadau: